Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 13.04.2021

## Llacio cyfyngiadau COVID-19 – diweddariad amserlen

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yr wythnos diwethaf y bydd elfennau o'i rhaglen i lacio cyfyngiadau COVID-19 yn cael eu cyflymu.

Dyddiadau a phwyntiau allweddol i fusnesau:

Dydd Llun 12 Ebrill 2021:

- Gweddill y siopau yn ailagor, gan gwblhau'r broses raddol o ailagor busnesau sy'n gwerthu nwyddau nad ydynt yn hanfodol

- Gweddill y gwasanaethau cysylltiad agos yn ailagor, gan gynnwys gwasanaethau symudol

- Mae cyfyngiadau teithio rhwng Cymru a Lloegr wedi'u codi. (Mae cyfyngiadau ar deithio i wledydd y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon yn parhau i fod ar waith.)

- Bydd hawl i fynd i weld lleoliadau priodas, drwy apwyntiad

I'w cadarnhau ar 22 Ebrill 2021 cyhyd ag y bo'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn parhau'n ffafriol:

Dydd Llun 26 Ebrill 2021:

- Byddai atyniadau awyr agored, gan gynnwys ffeiriau a pharciau thema, yn cael ailagor

- Bydd lletygarwch awyr agored yn cael ailddechrau, gan gynnwys mewn caffis, tafarndai a bwytai. (Bydd lletygarwch o dan do yn parhau i fod ar gau, heblaw ar gyfer bwyd i'w gludo oddi yno)

- Gellir cynnal gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu ar gyfer hyd at 30 o bobl (y dyddiad gwreiddiol oedd dydd Llun 3 Mai 2021)

- Gellir cynnal derbyniadau priodasau yn yr awyr agored, ond byddant hefyd wedi'u cyfyngu i 30 o bobl (y dyddiad gwreiddiol oedd dydd Llun 3 Mai 2021)

Dydd Llun 3 Mai 2021 (ddydd Llun 10 Mai 2021 yn wreiddiol):

- Caiff campfeydd, canolfannau hamdden a chyfleusterau ffitrwydd ailagor. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant unigol neu un-i-un ond nid dosbarthiadau ymarfer corff

- Bydd modd ffurfio aelwydydd estynedig unwaith eto, a fydd yn galluogi dwy aelwyd i gwrdd a chael cyswllt o dan do. (Nid oes canllawiau ar sut fydd hyn yn effeithio llety hunan-gynhwysol)

I ddarllen y cyhoeddiad, ewch i:

https://llyw.cymru/llacio-cyfyngiadau-covid-19-yng-nghymru-yn-gynt

I gael y cyngor, y canllawiau a'r deunyddiau diweddaraf i gadw eich staff a'ch cwsmeriaid yn ddiogel, ewch i:

https://llyw.cymru/aros-yn-ddiogel-yn-y-gwaith

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

# Cardiau Gweithredu Busnes – Gwasanaethau cysylltiad agos

Mae Llywodraeth Cymru wedi gyhoeddi Cardiau Gweithredu Busnes ar gyfer y gweithle a chleientau. (Saesneg yn unig ar hyn o bryd.)

- Gwasanaethau gwallt, harddwch, cyfannol, tatŵ a thyllu'r corff. Ar gyfer y canllawiau a'r cardiau gweithredu busnes, ewch i:

https://llyw.cymru/gwasanaethau-gwallt-harddwch-cyfannol-tatw-thyllur-corff-canllawiaur-coronafeirws-weithleoedd

- Gwasanaethau aciwbigo, clinigol a therapi chwaraeon. Ar gyfer y canllawiau a'r cardiau gweithredu busnes, ewch i:

https://llyw.cymru/gwasanaethau-aciwbigo-clinigol-therapi-chwaraeon-canllawiaur-coronafeirws-i-weithleoedd

# Coronafeirws (COVID-19): Hawliau dros dro newydd ynghylch datblygu a ganiateir i gefnogi adferiad economaidd

Er mwyn helpu busnesau i ailagor a chefnogi eu hymdrechion i greu amgylcheddau diogel, gan alluogi'r cyhoedd i deimlo'n hyderus i ddychwelyd i'r stryd fawr a'r sectorau lletygarwch a thwristiaeth, mae Llywodraeth Cymru yn llacio'r rheolaeth gynllunio ar gyfer datblygu penodedig dros dro drwy wneud diwygiadau i Orchymyn Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("GDCG"). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-hawliau-dros-dro-newydd-ynghylch-datblygu-ganiateir-i-gefnogi-adferiad-html

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru